Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Pentrefoelas
Pentrefoelas
Betws y Coed
Conwy
LL24 0LE

13/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Pentrefoelas yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella medrau ysgrifennu disgyblion.
- Mae'n trefnu sesiynau dysgu proffesiynol bwriadus i staff, fel darparu cyfleoedd iddynt gydweithio ag ysgolion lleol. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi gallu staff i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n bwrpasol ar draws ystod o gyd-destunau diddorol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser yn cefnogi disgyblion i ddatblygu'r holl ystod o fedrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu.
- Yn ddiweddar, mae staff wedi dechrau defnyddio adnoddau pwrpasol fel 'waliau gweithio' i gefnogi disgyblion â'u gwaith ysgrifennu. Mae'r pennaeth yn ymwybodol bod angen datblygu'r arferion hyn ymhellach.
- Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu llythyr at ffrind gan ddangos dealltwriaeth gadarn o atalnodi a sillafu syml. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau a berfau yn synhwyrol, fel wrth ysgrifennu dadl am fanteision ac anfanteision chwarae gemau digidol. Mae

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

staff yn defnyddio taflenni ysgrifennu parod yn ormodol i ddisgyblion, ynghyd â darparu her isel ar eu cyfer mewn ychydig o dasgau. Yn gyffredinol, mae hyn yn llesteirio gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn annibynnol ac i gyflawni'n well dros amser.
- Mae staff wedi addasu'r polisi adborth ac ymateb i waith yn briodol. Mae disgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth gadarn o'r cod marcio ac, ar adegau, yn defnyddio adborth gan staff i wella eu gwaith.

### Darparu gweithgareddau sy'n herio pob disgybl i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae gan y pennaeth weledigaeth briodol ar gyfer datblygu'r agwedd hon ac yn cefnogi staff i gael dysgu proffesiynol addas er mwyn gwella'r ddarpariaeth.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau dysgu sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemateg dros amser. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfrif yn hyderus ac, erbyn cyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn hyderus.
- Mae athrawon yn modelu iaith fathemategol yn bwrpasol ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'w gweithgareddau.
- Yn gyffredinol, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith sy'n cael eu darparu gan staff yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhesymu a datrys problemau yn annibynnol.
- Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn briodol. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cael eu darparu'n ddigon cyson gan staff er mwyn herio dysgu'r disgyblion a'u cefnogi i wneud cynnydd cadarn.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn gynyddol annibynnol a chydlynus ar draws y meysydd dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622270](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622270)

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol